Home Office

Interpersonal Abuse Unit Tel: 020 7035 4848 2
Marsham Street www.homeoffice.gov.uk
London
SW1P 4DF

Mannon Emyr Trappe
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

28 Tachwedd 2022

Annwyl Mannon,

Diolch am ailgyflwyno'r adroddiad Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR) (Tina) ar ran Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd i Banel Sicrwydd Ansawdd (QA) y Swyddfa Gartref. Ail-aseswyd yr adroddiad ym mis Hydref 2022.

Nododd y Swyddfa Gartref fod rhaid o'r pwyntiau adborth a godwyd yn y llythyr yn dilyn cyflwyno'r adroddiad y tro cyntaf wedi derbyn sylw ond mae'n dal i fod rhai materion sydd heb gael sylw y mae angen eu diwygio cyn gallu cyhoeddi. **Meysydd i'w Datblygu**

- Mae nifer o bwyntiau yn yr adolygiad y mae angen iddynt gyfeirio at ymchwil a thystiolaeth berthnasol sy'n ffurfio sail i'r datganiadau a wneir.
    - Mae angen cyfeiriad yn 5.3.17 i gefnogi'r pwynt ynghylch peidio â datgelu.
    - Mae 1.10.6 yn ddatganiad cyffredinol ac mae angen cyfeiriad er mwyn tystiolaethu'r pwynt ynghylch tan-adrodd ymysg dynion.
    - Mae angen cyfeiriadau yn 5.1.5, 5.1.10, 5.1.11,5.1.12 i gyd.
    - Er bod yr ail-gyflwyniad bellach yn datgan yn glir nad yw alcohol yn achos, ond yn ffactor a wnaeth waethygu'r sefyllfa, mae angen cyfeiriad er mwyn cefnogi'r paragraff diwygiedig.
    - Mae 5.1.1 wedi'i ddiwygio, (e.e. "...byddai asiantaethau megis Cymorth i Ferched yn medru darparu digonedd o dystiolaeth bod cam-drin domestig yn guddiedig ..."). Dylid nodi'r dystiolaeth (a'i chyfeirio) yn glir yn yr ail-gyflwyniad.

- Mae 5.1.3 bellach yn datgan bod cyfle wedi'i fethu, ond nid yw'n nodi pa ddigwyddiad / ymyrraeth y mae'r cyfle hwn yn cyfeirio ato.

- Mae'r cynllun gweithredu sydd wedi'i ail-gyflwyno bellach yn cynnwys dyddiadau adolygu. Fodd bynnag, mae ffocws y cynllun yn parhau i fod ar yr hyn y gellir ei gyflawni, ac nid deilliannau disgwyliedig cyffredinol.

- Mae angen nifer o fân newidiadau i beth o'r iaith a ddefnyddir yn yr adolygiad; ○ Nid oes angen i 'Ymddygiadau Rheolus a Gorfodol' gael priflythrennau. ○ Mae'r term 'marwolaeth' yn parhau yn t. 3, 1.2.2, t. 6, 3.0.2, a 6.0.1. Dylid diwygio hyn. ○ Mae camgymeriad teipio yn y pennawd ar t. 37 (dylai ddarllen fel "*Shaun's Misuse*...").
    - Nid yw'n glir lle mae'r diwygiadau yn ymwneud â'r plant wedi'u gwneud ar dudalen 20 a 36. ○ 5.1.4 - angen iddo fod yn gliriach, ar hyn o bryd mae'n darllen fel pe bai rhai geiriau ar goll.
    - Mae 5.18 yn dal i gyfeirio at 'drais domestig' a dylid ei newid i 'cam-drin domestig'.

Buasem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu copi digidol terfynol o'r adroddiad gydag atodiadau a dolen i'r safle lle caiff yr adroddiad ei gyhoeddi. Sicrhewch fod y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r adroddiad os gwelwch yn dda.

Anfonwch y copi digidol a'r ddolen i DHREnquiries@homeoffice.gov.uk. Mae hyn ar gyfer ein cofnodion ein hunain ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol er mwyn mynd tuag at amlygu arfer gorau i lywio polisi cyhoeddus.

Anfonwch gopi digidol at y Comisiynydd Cam-drin Domestig hefyd os gwelwch yn dda DHR@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk.

Ar ran y Panel QA, hoffwn ddiolch i chi, cadeirydd ac awdur yr adroddiad, a chydweithwyr eraill am y gwaith sylweddol yr ydych wedi'i wneud ar yr adolygiad hwn. Yn gywir,

**Lynne Abrams**

Cadeirydd Panel Sicrwydd Ansawdd DHR y Swyddfa Gartref